



Oriel Mission | Gloucester Place, Abertawe SA1 1TY, Cymru | +44 (0)1792 652016

Ydych chi'n nabod person ifanc dawnus sy'n dwlu ar arlunio, gwneud, adeiladu a chreu?

Prosiect a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw Criw Celf Cynradd i blant sydd wedi dangos dawn neu ddi-ddordeb arbennig mewn Celf. Gall pobl ifainc ym Mlynnyddoedd 5 a 6 o ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wneud cais a dod yn rhan o'r prosiect creadigol cyffrous yma yn Oriel Mission.

Gwybodaeth i Athrawon a Rhieni

Am beth rydyn ni'n chwilio?

Pobl ifainc ym Mlynnyddoedd 5 neu 6 (9 i 11 oed) ar lefel Gynradd sy'n mwynhau celf, ac sy'n greadigol - y plant hynny sy'n greadigol, dychmygus ac yn frwdfrydig am y pwnc. Efallai eu bod yn dwlu ar arlunio, paentio, gwneud neu adeiladu; efallai eu bod yn treulio eu hamser yn dyfeisio cymeriadau, creu animeiddiadau neu dynnu ffotograffau. Dyma'r unigolion artistig y byddem wrth ein boddau eu gweld yn gwneud cais i'n rhaglen Criw Celf Cynradd.

Beth mae'r rhaglen yn ei gynnwys?

Gweithdai dosbarth meistr mewn amrywiaeth o feysydd Celf a Dylunio, sydd yn cymryd lle ar benwythnosau yn mis Mawrth.

Trip celfyddol cyffrous

Y cyfle i brofi gweithio ochr yn ochr ag artistiaid a dylunwyr proffesiynol

Arddangosfa broffesiynol ar y cyd i ddangos y gwaith sydd wedi'i greu yn ystod dosbarthiadau meistr Criw Celf.

Cit Deunyddiau Celf a thystysgrif i nodi cyflawniad y cyfranogwyr ar gwblhau'r rhaglen.

Gall pob ysgol enwebu disgyblion sy'n dangos gallu eithriadol ym maes celf, crefft neu ddylunio. Caiff athrawon anfon yr enwebiadau fel un cais.

Hysbysir ymgeiswyr ynglŷn â'u llwyddiant erbyn diwedd mis Chwefror.

I wneud cais, rhaid i bob ymgeisydd anfon atom

Ddarn o waith creadigol

Hoffwn ni'r darn yma ddweud rhywbeth amdanoch chi - efallai hunan bortread, neu darlun o'ch hoff atgof. Byddwn hefyd yn derbyn unrhyw waith arall rydych chi wedi'i gwblhau yn ddiweddar - ffotograff diddorol a dynnwyd gynnoch chi, paentiad, cerflun neu animeiddiad efallai. Bydden ni'n dwlu eu gweld nhw!

Dylech gynnwys manylion cyswllt pob ymgeisydd; enw, oedran, cyfeiriad, e bost a rhif ffôn. Hefyd yr ysgol y mae'n ei mynychu a'i athro/athrawes gelf.

Rhaid anfon y rhain drwy'r post neu e-bost i Oriel Mission erbyn Dydd Gwener 17 Chwefror 2023

apply@missiongallery.co.uk

Ffi'r rhaglen yw £20, gofynnir i gyfranogwyr ei dalu wrth dderbyn eu lle. Mae bwrsari bach ar gael i'r rheini na allant dalu'r ffi - rhowch wybod i ni os yw hyn yn berthnasol.

Os oes gynnoch chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch neu ffonio Oriel Mission: megan@missiongallery.co.uk

Nodyn pwysig, efallai fydd ceisiadau yn cau'n gynnar, yn dibynnu ar lefel yr ymgeisiadau

Mission Gallery

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif: 06467843

Oriel Mission | Gloucester Place | Yr Ardal Forol | Abertawe | Cymru | SA1 1TY
ff +44 (0)1792 652016 | e info@missiongallery.co.uk | y we missiongallery.co.uk

